## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 12fed Tachwedd 2018**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 12th November 2018**

**<u>Yn Bresennol/Present</u>**:
Cyng/Cllrs Tom Cowcher, Eileen Curry, Douglas Davies, Keith Evans, Andrew Howell, Gethin Jones, Abby Reid

**<u>Ymweliad / Visit</u>**

Roedd Christina Fraser, Arolygydd ar Ddyletswydd ar gyfer Llandysul, yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'i hun ac i roi syniad i'r Cynghorwyr o'i Blaenoriaethau a'i materion strategol ar gyfer y dyfodol. Ei nod yw sicrhau y bydd Plismon/Plismones yn dychwelyd i Landysul dan drefniant parhaol erbyn mis Ionawr. Byddai hyn yn eu galluogi i dargedu rhai unigolion. Mae'n gobeithio y bydd modd i'r orsaf yn Llandysul ailagor ac y bydd aelod o'r cyhoedd yn ei rhedeg.
O ran troseddu gwledig, gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth ynghylch y cynllun Gwarchod Ffermydd. Gofynnodd y Cynghorwyr am ragor o wybodaeth am y cynllun gwylio cyflymder. Byddai hi'n rhoi atebion i'r clerc
Esboniodd y Cynghorwyr iddi mai hwn yw'r math o neges y mae angen i aelodau'r cyhoedd ei chael. Aethant ymlaen i esbonio hefyd bod Siân Davies yn aelod o'r tîm sy'n gweithio'n galed ac yn aelod mor ddilys fel PCSO. Gofynnodd y Cynghorwyr hefyd a fyddai modd i'r PCSO gyhoeddi gwarantau tipio anghyfreithlon.

Daeth PCSO Siân Davies i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y materion canlynol
Difrod o gwmpas y parc – roedd Siân wedi creu taflenni ac mae'n eu dosbarthu o gwmpas y pentref nawr
Difrod Troseddol – Y Tu Allan i Spar – Dim unigolion drwgdybiedig
Bu 1 gwarant cyffuriau cadarnhaol yn Llandysul

Roedd y Cynghorwyr yn dymuno diolch i'r heddlu ac roeddent yn ddiolchgar iawn am eu gwaith yn ystod Storm Callum.

Christina Fraser Duty Inspector for Llandysul was present at the meeting to introduce herself and to give the Councillors a view on her Priorities and strategic matter for the future. She is aiming to have a PC back on the streets of Llandysul on a permanent basis by January. This would enable them to target some individuals. She hoped that the station in Llandysul would be re-open with a member of the public running it.
With regards to rural crime members asked for more information with regards to Farmwatch. Councillors asked for more information also on the speedwatch scheme. She would reply through the clerk
Cllrs explained to her that this is the type of message that members of the public need to know. They also explained how hardworking and how much of a valid member of the team Sian Davies is as PCSO. Cllr’s also asked if the PCSO could issue fly tipping warrants.

PCSO Sian Davies arrived at the meeting with her update on the following
Damage around the park – Sian had produced flyers and is now distributing them around the village
Criminal Damage – Outside Spar – No suspects
1 Positive drug warrant in Llandysul

Councillors with to thank the police and were very grateful for their involvement during storm Callum.

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Beth Davies, Aled Jones, Llŷr Jones a Susan Lloyd a Chynghorydd Sir Peter Davies /Apologies for absence was received from Cllrs Beth Davies Aled Jones, Llyr Jones and Susan Lloyd and County Councillor Peter Davies.

   **Penderfynwyd y dylai'r clerc ddosbarthu'r Canllawiau i Gynghorwyr i'r holl aelodau. It was decided that the clerk circulate all members with the Councillor Guidelines.**

2. **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Datgelwyd budd gan Gynghorwyr Tom Cowcher a Keith Evans mewn perthynas â chais Llandysul a Phont Tyweli Ymlaen am grant ar gyfer Ffair Nadolig Llandysul a chan Gyng Mike Hotson mewn perthynas â'r cais am gyllid ar gyfer Prosiect Dyfodol Gwledig. / There were declarations of interest shown by Cllrs Tom Cowcher and Keith Evans with regards to Llandysul Pont Tyweli Ymlaen grant application for the Llandysul Christmas Fair and Cllr Mike Hotson for the Rural Futures Project funding application .

3. **Cofnodion/Minutes** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 yn gywir ar yr amod yr ychwanegir yn y cyfieithiad Cymraeg bod Tom Cowcher wedi ymddiheuro a bod y ffaith bod Cyng Tom Cowcher yn dymuno atgoffa'r holl Gynghorwyr trwy e-bost dan y pennawd Capel Dewi. / Minutes of monthly meeting held on 10th September 2018 was accepted as correct following adding that Tom Cowcher had sent his apologies in the welsh translation and adding under the heading Capel Dewi adding that Cllr Tom Cowcher wished via email to remind all the Councillors.

4 **Materion yn Codi**:-

**Capel Dewi**
Roedd y coed ar y ffordd o Landysul i Gapel Dewi wedi cael eu torri ond fe'u gadawyd ar y ffordd. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

**Meddygfa Teifi**
Nid oedd cleifion wedi cael gwybod o hyd pa bractis y maent wedi cael eu neilltuo iddo. Adroddwyd bod rhai materion i'w datrys o hyd, ond bod swyddogion yn gweithio gyda'r practisiau er mwyn ceisio sicrhau'r datrysiad gorau.

**Safoni enwau lleoedd**
Penderfynwyd derbyn y cynnig ynghylch Pentre-llwyn.

**Goleuadau Nadolig**
Roedd y clerc wedi cael dyfynbris am y gwaith o gynnal a chadw'r Goleuadau Nadolig yn Llandysul. Penderfynwyd derbyn y dyfynbris gan Alun Thomas.

**Materion y mae Gofyn Gwneud Penderfyniad Amdanynt**

**4) Ceisiadau Ariannol:-**

**Ffermwyr Ifanc Pont-siân** – Tân Gwyllt – Cafwyd cais yn gofyn am rodd o £410 er mwyn cynnal y noson tân gwyllt ym Mhont-siân. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.
**Rhaglen Dyfodol Gwledig** Gofynnwyd am rodd o £75.00 am y ffi gyfieithu a'r lluniaeth mewn cyfarfod a gynhelir yng Ngwesty'r Porth, Llandysul. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano gan bod y Cynghorwyr yn teimlo ei bod yn bwysig bod y rhaglen yn un ddwyieithog.

**Ffair Nadolig Llandysul**
Gofynnwyd am rodd o £800 er mwyn helpu i redeg Ffair Nadolig Llandysul. Gan bod gan y Cynghorwyr gryn dipyn o gwestiynau ynghylch y fantolen, penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn am eglurhad ynghylch y ffigurau cyn y gellir gwneud penderfyniad.
5) **Materion i'w trafod**

4 **Matters Arising**:-

**Capel Dewi**
The trees on the road from Llandysul to Capel Dewi had been cut but were still left on the road. Clerk to contact the County Council.

**Teifi Surgery**
Patients had still not been informed of which practice they had been allocated to. It was reported that some issues had to be resolved but officers were working with the practices ensuring best fix.

**Standardisation of place names**
It was decided to accept the proposal of Pentre-llwyn.

**Christmas Lights**
The clerk had received a quotation for the maintenance of Christmas Lights in Llandysul. It was decided to accept the quotation from Alun Thomas.

**Matters Requiring Decisions**

**4) Funding Applications:-** .

**Pontsian Young Farmers** – Fireworks – An application was received asking for a donation of £410 for hosting the fireworks display in Pontsian. It was decided to donate the requested amount.
**Rural Futures Programme** A request for a donation of £75.00 for translation fees and refreshments was requested for a meeting to be held at the Porth Hotel, Llandysul. It was decided to donate the requested amount as the Councillors felt the importance of the programme being bilingual.

**Llandysul Chritmas Fair**
A request for a donation of £800 was requested to help run the Llandysul Christmas Fair. As the Councillors had a lot of questions with regards to the balance sheet it was decided that the clerk ask for clarification of the figures before a decision could be reached.
5) **Matters for discussion**

**Llifogydd**

Roedd yr holl Gynghorwyr wedi cael rhestr gan y Cyngor Sir o'r tai yn eu hardaloedd yr oeddent wedi cael eu heffeithio.
Trafododd Cynghorydd Abby Reid y posibilrwydd o lunio Cynllun Argyfwng Cymunedol yn debyg i'r un sydd gan Gyngor Cymuned Borth ac Ynys-las.
Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd y byddai hwn yn syniad da ac y dylid gwahodd y 2 Gynghorydd o Gynghorau Cymuned Llanfihangel-ar-arth a Llangeler i gymryd rhan hefyd gan eu bod yn byw ym Mhont-tyweli.
Yn ogystal, trafodwyd y cam o greu llyfryn a fyddai'n cynnwys yr holl rifau y byddai eu hangen ar bobl mewn argyfwng pe byddai unrhyw beth fel storm Callum yn digwydd eto.
Bydd Cyng Abby Reid yn ystyried y mater hwn ymhellach ac yn ffurfio is-bwyllgor.
Roedd Cyng Keith Evans yn dymuno diolch i'r Gymuned am gynorthwyo ei gilydd. Esboniodd hefyd bod dau gyngerdd wedi cael eu trefnu ar y 24ain yn Ysgol Bro Teifi ac ar y 25ain yn Neuadd Tysul i godi arian ar gyfer y rhai a ddioddefodd yn ystod y llifogydd.
Gan bod aelodau'r Gymuned wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer y sawl a ddioddefodd yn ystod y llifogydd, roedd wedi llunio papur ynghylch sut y byddai'r arian yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd deg. Penodwyd bwrdd o weinyddwyr.

Cafwyd llythyr gan Monsieur Le Maire o Plogonnec ac fe'i nodwyd.

**Eisteddfod Tregaron**

Roedd Cyng Keith Evans wedi cael gwahoddiad i gyfarfod i drafod y ffaith bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Dregaron yn 2020. Rhoddwyd targed i bob Cyngor Cymuned i'w godi. £10,000 yw targed Llandysul, o gyfanswm y targed ar gyfer Ceredigion, sef £330,000. Penderfynwyd peidio symud ymlaen i drefnu gweithgarwch codi arian nes ar ôl y cyngherddau ar gyfer dioddefwyr y Llifogydd.

**Gwobr y Gymuned**

Cafwyd un enwebiad gan Gyng Abby Reid, sef Clare Price, er mwyn cydnabod ei holl waith caled yn ystod y llifogydd a fu yn Llandysul yn

**Flooding**

All Councillors had received a list from the County Council of the houses that had been affected in their areas.
Councillor Abby Reid discussed the possibility of setting up a Community Emergency Plan something similar to Borth and Ynys Las Community Council.
Following a lengthy discussion it was decided that this would be a good idea and possibly inviting the 2 Councillors from Llanfihangel ar Arth and Llangeler Community Councils to come on board as they live in Pont Tyweli.
It was also discussed to create a booklet with all the emergency numbers that people would need if anything like storm Callum would happen again.
Cllr Abby Reid would look into it further and create and create a sub committee.
Cllr Keith Evans wished to thank the Community for supporting each other. He also explained that two concerts had been arranged on the 24th at Ysgol Bro Teifi and on the 25th at Tysul Hall to raise money for the flood victims.
As members of the Community had been busy raising money for the flood victims he had created a paper on how the money would be distributed fairly. A board of administrators had been appointed.

Letter had been received from Monsieur Le Maire from Plogonnec and noted.

**Tregaron Eisteddfod**

Cllr Keith Evans had been invited to a meeting with regards to the National Eisteddfod coming to Tregaron in 2020. Each Community Council was given a target to raise. Llandysul’s target was £10,000 from the £330,000 target for Ceredigion. It was decided not to proceed with organising fundraising until after the fundraising concerts for the Flood victims had been held.

**Community Award**

One nomination had been received from Cllr Abby Reid for Clare Price for recognition for all her hard work during the recent flooding in

ddiweddar ac am ei tudalen ar y we, Real Llandysul and Surrounding News.
Penderfynwyd dyfarnu'r Wobr yn y Cinio Cymunedol.
Atgoffwyd pawb gan Gyng Mike Hotson am Raglen Dyfodol Gwledig, a gynhelir ar 29+30 Tachwedd ac 1+2 Rhagfyr.
Yn ogystal, diolchodd i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y Bowl-a-thon.

**Materion Wardiau**

**Llandysul**

Roedd aelod o'r cyhoedd wedi gofyn a fyddai modd gosod golau stryd ar y postyn gyferbyn â mynedfa'r Pwll Nofio. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor i holi beth fyddai'r gost.
Nid yw'r goleuadau ar y llwybr troed ym Mhlasydderwen wedi bod yn gweithio ers y llifogydd. Bydd y clerc yn cysylltu ag Alun Thomas ac yn gofyn iddo eu trwsio.
Nid yw'r cwteri wedi cael eu gwacáu ar hyd y strydoedd yn Llandysul. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

**Capel Dewi**

Adroddwyd bod dŵr yn rhedeg i lawr y rhiw o hyd o Rhyd y Ceir tuag at y safle bws. O ganlyniad, mae'r safle bws yn mynd yn frwnt iawn. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir a hefyd, trefnu pris am godi llawr y lloches bws yn uwch na lefel y ffordd.
O ganlyniad i lefelau tipio anghyfreithlon yng nghwarel Maes y Derw, penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir osod arwydd yno ynghylch dirwyon. Y gobaith yw y bydd hyn yn atal pobl rhag gwneud hyn.

Roedd y Cynghorwyr yn dymuno diolch i'r gweithwyr a fu'n gweithio'n galed i glirio'r ffordd yn dilyn tirlithriad yng Nghapel Dewi.

**Tre-groes**

Yn ystod y llifogydd a fu yn ddiweddar, roedd Fferm Login yn Nhre-groes a ffyrdd Glyncerdin ac Abercefel wedi cael eu hynysu. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn a oes modd gwneud rhywbeth i'r ffordd gan bod hyn yn digwydd yn rheolaidd nawr.
Cafwyd llythyr gan Glwb Hanes Plwyf Llanfihangel-ar-arth yn estyn gwahoddiad i'r Cadeirydd i lansiad llyfr The electrification of the Teifi Valley and District 1914-2017.

Llandysul and for her website page Real Llandysul and Surrounding News. It was deceided to grant the Award at the Community Dinner.
Cllr Mike Hotson reminded all of the Rural Futures Programme to be held on the 29+30 November and 1+2 December.
He also thanked all for their support during the Bowl-a-thon.

**Ward Matters**

**Llandysul**

A request had been received by a member of the public asking if a street light could be put up on the post opposite the entrance of the Swimming Pool. The clerk to contact the Council to see what the cost would be.
Lights on the footpath at Plasydderwen had not been working since the floods. The clerk to contact Alun Thomas to repair them.
Gullies had not been emptied on the streets in Llandysul. The clerk to contact the County Council.

**Capel Dewi**

It was reported that water is still running down the hill from Rhyd y Ceir towards the bus stop. This resulting in the bus stop becoming very dirty. It was decided that the clerk contact the County Council and also obtain a price to raise the bus shelters floor above the road level.
It was decided that due to levels of fly tipping at Maes y Derw quarry to ask the County Council for a sign about fines be placed there. This in the hope that it will deter people.

The Councillors wished to thank the workers that had worked hard to clear the road following a landslide at Capel Dewi.

**Tregroes**

Login Farm in Tregroes and Glyncerdin and Abercefel roads had become isolated during the recent floods. It was decided that the clerk contact the County Council to ask if something could be done to the road as its becoming a regular occurance.

Letter had been received from Llanfihangel ar Arth Parish and History Club inviting the Chairman to a book launch The electrification of the Teifi Valley and District 1914-2017.

**Pont-siân**
Cwrt, Pontsian – mae dŵr yn aros ar y ffordd, bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

6) **Cydnabod derbyn rhodd**

Llandysul a Phont Tyweli Ymlaen – Penwythnos Cerdded - £300
Sioe Llandysul - £400

**Gohebiaeth**
Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 8 Hydref ac 11 Tachwedd 2018.
Cafwyd y canlynol gan

**Gyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd llythyr ynghylch diwrnod Hawliau Gofalwyr a gynhelir ar gyfer Gofalwyr ar 30 Tachwedd 2018 yn yr Hen Goleg, Aberystwyth.

**ULlC/SLCC/ Clerks and Councils Direct** –

Cafwyd Cylchgrawn The Clerk a Clerk and Councils Direct.

**GIG 111**
Cafwyd llythyr ynghylch lansiad swyddogol GIG111 a dosbarthwyd posteri i'r aelodau.

**Glasdon**
Cafwyd catalog.

**Hags**
Cafwyd taflen Chwarae Hags ac fe'i nodwyd.

**7 Cynllunio**:
Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhelir ar 14 Tachwedd 2018.

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-

A181016 - Penrhiw Cerdin, Bwlch-y-groes

**Pontsian**
Cwrt, Pontsian water is staying on the road, clerk to contact the County Council.

6) **Acknowledge receipt of donation**

Llandysul Pont Tyweli Ymlaen –Walking Weekend - £300
Llandysul Show - £400

**Correspondence**
Emails –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 8th October– 11th November 2018 was tabled.
The following were received from

**Ceredigion County Council**

Letter was received with regards to a Carers Rights day to be held for Carers on 30th November 2018 at the Old College, Aberystwyth.

**OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct** –

The Clerk Magazine and Clerk and Councils Direct were received.

**NHS 111**
Letter regarding the official launch of NHS111 was received and posters distributed to members.

**Glasdon**
Catalogue was received.

**Hags**
Hags Playleaflet was received and noted.

**7 Planning**:
Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 14 November 2018 was received.

The following plans were supported by the Community Council and there were no objections:-

A180955 – Tŷ Mari, Llandysul

8) Gwybodaeth Ariannol

**Anfonebau:**-

Llinos Jones– Cafwyd anfoneb am y swm o £279.45 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Medi a mis Hydref a derbyniwyd y dylid ei thalu.

V Davies – Cafwyd anfoneb am y swm o £72.00 am lanhau lloches bws Capel Dewi rhwng mis Ebrill 2017 a mis Ebrill 2018 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

PJ Gardening Services– Ysgrifennwyd siec am y swm o £300 am Dorri porfa a Chynnal a chadw'r maes parcio gyferbyn â Neuadd Tysul a'r llwybr troed o'r lloches bws uwchben Ysgol Dyffryn Teifi i lawr i'r afon.

Cliand Computers – Ysgrifennwyd siec am y swm o £138 am brynu inc ar gyfer cyfrifiadur y clerc.

A181016 -Penrhiw Cerdin, Bwlchygroes
A180955 – Ty Mari, Llandysul

8) Financial Information

**Invoices:**-

Llinos Jones– Invoice for £279.45 for September and October translation was received and passed for payment.

V Davies – Invoice for £72.00 for cleaning of Capel Dewi bus shelter from April 2017 to April 2018 was received and passed for payment.

PJ Gardening Services– Cheque for £300 was written for Grass cutting and Maintenance of car park opposite Tysul Hall and footpath from bus shelter above Ysgol Dyffryn Teifi down to the river.

Cliand Computers – Cheque was written for £138 for purchase of ink for clerks computer.

**Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:**

Gorchmynnwyd ac i’w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | £ c/£ p | |
| Cliand Computers | Inc/Ink | 138.00 | 000705 |
| V Davies | Cynnal a Chadw/Maintenance | 72.00 | 000706 |
| | Cancelled | | 000707 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 279.45 | 000708 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 423.24 | 000709 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 105.80 | 000710 |
| Llandysul Pont Tyweli | Rhodd/Donation | 300.00 | 000711 |
| Sioe Llandysul Show | Rhodd/Donation | 400.00 | 000712 |
| Paul James | Cynnal a Chadw/Maintenance | 300.00 | 000713 |